# Pecyn Dogfennau

## CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 9 RHAGFYR 2020

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd I.W. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry | C.A. Davies |
| W.R.A. Davies | T.A.J. Davies | G. Davies | H.L. Davies |
| I.W. Davies | J.A. Davies | K.Davies | S.L. Davies |
| E. Dole | J.S. Edmunds | P.M. Edwards | H.A.L. Evans |
| L.D. Evans | R.E. Evans | W.T. Evans | A.L. Fox |
| S.J.G. Gilasbey | C.J. Harris | P. Hughes-Griffiths | T.M. Higgins |
| J.K. Howell | P.M. Hughes | A. James | J.D. James |
| R. James | D.M. Jenkins | J.P. Jenkins | G.H. John |
| C. Jones | B.W. Jones | D. Jones | G.R. Jones |
| A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd | S. Matthews |
| A.S.J. McPherson | E. Morgan | A.G. Morgan | S. Najmi |
| D. Nicholas | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips | D. Price |
| J.G. Prosser | E.M.J.G. Schiavone | H.B. Shepardson | A.D.T. Speake |
| L.M. Stephens | B. Thomas | D. Thomas | E.G. Thomas |
| G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett | A.Vaughan Owen |
| D.T. Williams | D.E. Williams | J.E. Williams | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
J. Corner, Swyddog Technegol
G. Jones, Peiriannydd Cymorth Digidol
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod -. - 10.00 - 11.00 yb**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr  D.C. Evans; D. Harries; H.I. Jones; T.J. Jones; K. Madge a B.A.L Roberts

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jeff Edmunds i'r cyfarfod ar ôl bod yn dost yn ddiweddar a dymunodd wellhad llwyr iddo;
- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Andre McPherson ar ei briodas ddiweddar;
- Mynegodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Kevin Madge yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar;
- Bu i'r Cynghorydd Liam Bowen longyfarch Nigel Owens am gyrraedd y garreg filltir o ddyfarnu 100 o gemau prawf rygbi rhyngwladol, y cyntaf mewn hanes i gyflawni'r gamp honno, a hefyd i Kieran Hardy ar ennill ei ail gap rygbi dros Gymru, roedd y ddau ohonynt yn drigolion yn Ward Pontyberem;
- Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd i annerch y Cyngor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Covid-19 yn y Sir. Cyfeiriodd y Cynghorydd Dole at y cyfraddau cynyddol o Covid 19 a derbyniadau i'r ysbyty yn y Sir ac at y pwysau yr oedd hynny'n ei achosi ar y Gwasanaeth Iechyd. Er ei fod yn croesawu brechlyn Covid-19 a gafodd ei gyflwyno'n ddiweddar, anogodd holl drigolion y Sir i helpu i leihau'r pwysau hwnnw drwy ddilyn rheolau a chanllawiau Llywodraeth Cymru i gadw eu hunain, a'u cymunedau'n ddiogel;
- Gwahoddodd y Cadeirydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol y Cyngor i annerch y Cyngor, a chyfeiriodd pob un ohonynt at y cyfnodau anodd a achoswyd gan bandemig Covid gan fynegi eu gwerthfawrogiad a'u diolchgarwch i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u haberthau er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel yn y sir a rhoi cefnogaeth a chymorth i'r rhai sy'n agored i niwed a'r rheiny sydd fwyaf mewn angen. Mynegwyd gwerthfawrogiad hefyd i ddarparwyr a gwirfoddolwyr eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y sir am eu cefnogaeth.

  Adleisiodd aelodau eraill y Cyngor sylwadau arweinwyr y grwpiau.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 11 TACHWEDD 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2020, gan eu bod yn gywir, yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd A.D.T. Speake yn y rhestr o'r rheiny oedd yn bresennol.**

## 5. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

## 5.1. GORCHMYNION DATBLYGU LLEOL CANOL TREF CAERFYRDDIN A CHANOL TREF RHYDAMAN

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2020 (gweler Cofnod 6) wedi ystyried adroddiad ynghylch y cynigion i gyflwyno Gorchmynion Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Caerfyrddin a Chanol Tref Rhydaman. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y rôl bosibl y gallai Gorchmynion Datblygu Lleol ei chwarae fel rhan o gynigion adfywio ehangach yng nghyd-destun Canol y Dref, yn enwedig o ran Caerfyrddin a Rhydaman wrth gefnogi'r Fenter Lleoedd Llewyrchus a sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll effeithiau economaidd COVID-19. Roedd y cynigion hefyd yn rhoi sylw dyledus i Gynllun Adfer Corfforaethol y Cyngor a Chanllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru – 'Adeiladu Lleoedd Gwell'.

Nodwyd bod Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhoi cyfle i Awdurdod Cynllunio Lleol symleiddio'r broses gynllunio drwy ddileu'r angen i ddatblygwyr/ymgeiswyr gyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod ac i gyflwyno cynigion datblygu fel cais am Orchymyn Datblygu Lleol yn lle, gan ganiatáu i awdurdod weithredu'n rhagweithiol mewn ymateb i amgylchiadau lleol penodol yn ei ardal ddaearyddol. Fodd bynnag, pe bai angen cais cynllunio ffurfiol, byddai'n rhaid cyflwyno hynny fel y gwneir ar hyn o bryd. Cadarnhawyd ymhellach fod gwaith ar adeiladau rhestredig wedi'i eithrio o'r Gorchmynion.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**6.1 Bod cwmpas y Gorchymyn Datblygu Lleol arfaethedig yn cael ei gymeradwyo i'w ystyried drwy gyfrwng y broses adrodd ddemocrataidd;**
**6.2 Bod y Gorchmynion Datblygu Lleol yn cael eu paratoi ar gyfer y trefi perthnasol gan gynnwys cynnal ymgynghoriadau ffurfiol fel y bo'n briodol ac adrodd ymhellach ar eu cwmpas, eu cynnwys a'u graddau daearyddol arfaethedig;**
**6.3 Cymeradwyo cyhoeddi'r Gorchymyn Datblygu Lleol terfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am o leiaf 6;**
**6.4 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion baratoi tystiolaeth i gefnogi'r Gorchymyn Datblygu Lleol;**
**6.5 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud mân newidiadau golygyddol a ffeithiol;**
**6.6 Diwygio'r cynllun ar gyfer Gorchymyn Datblygu Lleol Canol Tref Caerfyrddin i gynnwys Heol Awst, Caerfyrddin yn ei chyfanrwydd.**

## 6. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

### 6.1. 2AIL TACHWEDD 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020.**

### 6.2. 16EG TACHWEDD 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020.**

### 6.3. 23AIN TACHWEDD 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020.**

## 7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

### 7.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD LOUVAIN ROBERTS

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Cynghorydd Louvain Roberts yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a'i bod wedi gofyn i'w Rhybudd o Gynnig gael ei dynnu'n ôl o'r cyfarfod.

Nododd y Cyngor fod y Rhybudd o Gynnig wedi'i dynnu'n ôl.

## 8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW):-

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan aelodau.

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**